**CYPE(6)-16-22 - Papur i'w nodi 3**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Ian Morgan
CBAC

06 Gorffennaf 2022

**Arholiadau'r Haf**

Annwyl Ian,

Byddwch yn ymwybodol o adroddiadau yn y wasg yn ystod y cyfnod arholi diweddar am rai trafferthion gyda phapurau arholiad penodol. Mae'r rhain yn cynnwys rhannau coll o gwestiynau mewn arholiad Iaith a Llenyddiaeth Saesneg; a phryderon am bapurau mathemateg a chemeg Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol ac arholiadau ymarferol. Yn benodol, tynnodd yr adroddiadau hyn sylw at yr effaith a gafodd hyn ar fyfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau, yn enwedig ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Mae rhiant hefyd wedi cysylltu â ni i fynegi pryderon tebyg am y papurau mathemateg a chemeg. Rhoddodd y rhiant y mater yng nghyd-destun ehangach effaith Covid-19 ar fyfyrwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'r ffaith mai'r cyfnod arholi hwn oedd y tro cyntaf i lawer o fyfyrwyr sefyll arholiad allanol. Disgrifiwyd yr effaith sylweddol y mae hyn wedi'i chael ar eu plentyn, hyd yn oed cyn i'r pryderon uchod am drafferthion gyda phapurau arholiad penodol gael eu hystyried.

Sut rydych chi'n ymateb i'r pryderon uchod a godwyd yn y cyfryngau a chan rieni unigol i ni'n uniongyrchol? A allwch chi amlinellu sut rydych yn bwriadu lliniaru'r effaith bosibl y bydd y materion hyn wedi'i chael ar fyfyrwyr a sicrhau bod y graddau a ddyfernir yn deg? Sut y cododd y trafferthion hyn, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd yn y dyfodol i sicrhau na fyddant yn digwydd eto? A allwch hefyd amlinellu pam yr ymddengys y bu rhywfaint o anghysondeb rhwng yr hyn yr oedd ysgolion yn disgwyl i'r arholiad ei gynnwys a'r hyn a brofwyd yn y papurau?

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Cymwysterau Cymru ynghylch y trafferthion hyn, a byddwn yn anfon copi o'r ohebiaeth hon atoch chi. Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Cymwysterau Cymru.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 7 Medi.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.